Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
# Ffordd Havard
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 8SD

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2012**

## Cyd-destun

Mae 214 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, sydd wedi'i lleoli mewn ardal breswyl gymysg ar gyrion Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.  Mae'r ysgol yn gwasanaethu plwyfi Llanelli, Porth Tywyn, Rhydaman a Llandeilo, gyda mwyafrif y disgyblion yn dod o Lanelli.

Dywed yr ysgol nad yw'r ardal y mae'n ei gwasanaethu naill ai'n freintiedig yn economaidd nac ychwaith yn ddifreintiedig, a bod gan 15% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw cyfartaledd Cymru gyfan, sef 20%.

Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig dros hanner o'r disgyblion.  Mae gan ryw 20% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys dau sydd â datganiad.

Y tro diwethaf yr arolygwyd yr ysgol oedd yn Hydref 2005.  Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er Medi 2004.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,187 fesul disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r isafswm yw £3,114.  Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn safle 95 o'r 110 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae safonau lles yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u cymell yn dda ac yn awyddus i ddysgu, ac mae eu hymddygiad yn dda iawn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cyflawni safonau digonol o gymharu â'r rhai mewn ysgolion eraill yn ei theulu. Nid yw'r lefel hon o berfformiad yn cymharu'n dda â lefel y perfformiad mewn ysgolion tebyg na gyda chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent.

**Rhagolygon gwella**

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- nid yw uwch arweinwyr yn herio staff digon i wella ansawdd eu haddysgu i godi safonau cyflawniad disgyblion;
- nid yw staff yn defnyddio data yn effeithiol i olrhain disgyblion a nodi meysydd i'w datblygu;
- nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi gosod targedau clir a mesuradwy ar gyfer gwella'r ysgol sy'n canolbwyntio ar godi safonau; ac
- nid aethpwyd i'r afael yn llawn â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

Fodd bynnag, mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir i'r ysgol, sy'n arwain at ethos cryf a gofalgar; ac mae ystod dda o bartneriaethau sydd o fudd i ddisgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli a gryfhawyd yn ddiweddar yn gweithio'n dda. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau yn dda ac mae ganddo wybodaeth ymarferol dda am flaenoriaethau a data perfformiad yr ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 wella safon medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm;

A2 herio disgyblion mwy abl yn effeithiol;

A3 datblygu systemau trylwyr i fonitro addysgu a dysgu a gweithredu yn unol â’r deilliannau;

A4 gosod targedau clir, wedi’u blaenoriaethu ar gyfer gwella safonau gyda meini prawf llwyddo mesuradwy; a

A5 gwella ansawdd yr addysgu, y marcio a’r asesu i sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn fod angen gwella’r ysgol hon yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n cyd-fynd â'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu ychydig yn is.

At ei gilydd, mae data perfformiad dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad cyffredinol yn lefelau cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, mae dadansoddiad data yn dangos bod rhan o'r duedd hon ar i lawr yn gysylltiedig â'r newidiadau ym mhoblogaeth yr ysgol dros gyfnod.

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar aelodau o staff a disgyblion eraill. Maent yn siarad yn glir a gyda lefel o hyder sy'n gweddu i'w cyfnod datblygu. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol mewn grwpiau ac mewn parau.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn darllen. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ystod o strategaethau i ddadgodio geiriau anghyfarwydd a gallant ateb cwestiynau syml ar yr hyn y maent wedi'i ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn darllen gyda lefel dda o ruglder a mynegiant. Mae rhai ohonynt yn datblygu medrau darllen lefel uwch, fel brasddarllen a sganio.

Mae gwaith ysgrifenedig bron pob un o'r disgyblion yn ddarllenadwy ac wedi'i gyflwyno'n dda. Fodd bynnag, nid yw pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl, yn ysgrifennu'n annibynnol yn estynedig ar draws y cwricwlwm digon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, ac eithrio'r rhai mwy abl, yn cyflawni safonau priodol mewn mathemateg, ond nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Fodd bynnag, cyfyngedig yw cynnydd disgyblion mewn medrau lefel uwch, fel defnyddio cronfeydd data a thaenlenni.

Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol ar gyfer darllen, ysgrifennu a mathemateg yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac maent yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u galluoedd.

Mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio rhywfaint dros y pum mlynedd diwethaf gyda gostyngiad sylweddol mewn perfformiad y llynedd. Roedd perfformiad disgyblion yn 2011, o gymharu â pherfformiad ysgolion y mae canran debyg o'u disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim, yn y 25% isaf ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2). Roedd perfformiad disgyblion islaw'r cyfartaledd ar gyfer teulu'r ysgol mewn mathemateg ac ymhell islaw'r cyfartaledd mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad ar y lefel uwch (lefel 3) wedi gostwng dros y pum mlynedd diwethaf hefyd, er bod hyn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion mewn Saesneg yn 2011.

Mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos tuedd ar i lawr mewn Saesneg a mathemateg dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2011, roedd perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn y 25% is o gymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion yn y tri phwnc craidd. Er y bu gwelliant ar y lefel uwch (lefel 5) yn y flwyddyn flaenorol, roedd perfformiad disgyblion islaw cyfartaledd y teulu mewn Saesneg a mathemateg ac ymhell islaw mewn gwyddoniaeth.

Er bod amrywiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn ym mherfformiad bechgyn a merched, nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched yn y ddau gyfnod allweddol ar y cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb i gwestiynau yn Gymraeg yn briodol er bod eu hatebion yn fyr ar y cyfan. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o gyfarwyddiadau a'r Gymraeg achlysurol a ddefnyddir gan staff. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dechrau sgwrs yn Gymraeg ac nid yw disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi'u cymell yn dda, maent yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn barod iawn i ymgymryd â'u gwaith ac yn dangos lefelau da o ganolbwyntio yn ystod gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau. Maent yn dechrau myfyrio ar eu dysgu eu hunain ac yn nodi sut y gallent wella'u gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, ni chaiff disgyblion eu cynnwys yn rheolaidd mewn cynllunio eu dysgu eu hunain. Maent yn ymddwyn yn dda iawn o amgylch yr ysgol ac mewn gwersi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd ac oedolion.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i fynd os oes ganddynt bryderon ac maent yn ymddiried mewn oedolion i'w cynorthwyo a gofalu amdanynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod i ddeall yn dda am bwysigrwydd bod yn iach a gweithgar. Mae llysgenhadon chwaraeon disgyblion dynodedig yn helpu i hyrwyddo'r gwerthoedd hyn yn effeithiol.

Mae'r cyngor ysgol a'r teulu eco yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Maent yn teimlo'n hyderus bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn cymryd rhan yn effeithiol mewn cynllunio gwelliannau i'r ysgol. Fe wnaethant helpu i greu 'adduned parcio' yn ddiweddar i wella diogelwch o amgylch yr ysgol. Mae disgyblion yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu allgyrsiol, ac fe gaiff y rhain effaith gadarnhaol ar eu lles.

Mae presenoldeb ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac ysgolion tebyg. At ei gilydd, mae cyfraddau presenoldeb wedi dangos ychydig o welliant dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau da i wella presenoldeb disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gwricwlwm priodol, sy'n bodloni gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol.

Mae profiadau dysgu cynlluniedig yn ddiddorol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus trwy amrywiaeth eang o destunau ysgogol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau bob amser yn bodloni anghenion disgyblion mwy abl yn sgil gorddibyniaeth ar daflenni gwaith ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu gallu disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae cynlluniau gwersi tymor byr yn ymgorffori medrau allweddol yn briodol, er nad yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer datblygu'r medrau hyn o un dosbarth i'r llall wrth i blant symud trwy'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth dda i gefnogi disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'r rhai sy'n Sipsiwn a Theithwyr.

Mae darpariaeth dda i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r teulu eco yn hyrwyddo gwybodaeth disgyblion o gynaliadwyedd a'r amgylchedd yn llwyddiannus ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r angen i ofalu am y blaned ac am ei gilydd.

Mae gwasanaethau Cymraeg wythnosol yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol a hanesyddol Cymru. Mae athrawon yn y Cyfnod Sylfaen yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg achlysurol yn effeithiol, er nad yw'r arfer hon wedi'i datblygu cystal ar draws cyfnod allweddol 2.

**Addysgu: Digonol**

Gwelir perthynas weithio dda iawn rhwng staff a disgyblion bron ym mhob un o'r gwersi, ac mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae llawer ohonynt yn cynllunio profiadau dysgu diddorol ar gyfer eu disgyblion. Caiff cynorthwywyr cymorth dysgu eu defnyddio'n effeithiol mewn sesiynau cymorth tynnu allan o wersi.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu gyda disgyblion ac yn defnyddio ystod o adnoddau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwneud defnydd da o gwestiynau agored i ymestyn meddyliau disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae'r gwersi'n symud yn rhy araf, ac ni chaiff disgyblion eu herio'n ddigonol. Nid yw athrawon yn rheoli eu hamser yn ddigon effeithiol bob amser i sicrhau bod disgyblion yn cael amser priodol i gwblhau tasgau a datblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Gwneir defnydd digonol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu pwrpasol. Caiff gwaith ei farcio'n rheolaidd a rhoddir adborth cadarnhaol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw sylwadau athrawon yn aml yn galluogi disgyblion i wybod yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Mae staff yn defnyddio data i fynd ati'n gywir i nodi disgyblion y mae angen iddynt gael cymorth ychwanegol mewn sesiynau tynnu allan o wersi. Fodd bynnag, nid ydynt yn dadansoddi canfyddiadau asesu yn effeithiol i godi safonau nac yn monitro cynnydd disgyblion yn systematig wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac addysgiadol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at eu mwynhad o'r ysgol a'u lefelau uchel o les. Mae'r ysgol yn lle trefnus ac mae disgyblion yn ymwybodol o'r safon uchel o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a diogelwch disgyblion a'u datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn nodweddion da ar waith yr ysgol.

Mae darpariaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn nodi anawsterau dysgu yn gynnar iawn. Mae strategaethau wedi'u targedu'n glir i ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt wedi arwain at gynnydd da yn eu dysgu, eu hagweddau a'u hymddygiad. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli hefyd gyda gwasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol i ddarparu lefel uchel o gymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol iawn sy'n annog pob disgybl i drin pobl eraill yn deg a dangos parch atynt. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Caiff pob disgybl fynediad cyfartal i holl feysydd y cwricwlwm. Rhoddir pwyslais cryf ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth, ac mae disgyblion yn ymateb yn dda i hyn.

Mae arddangosiadau deniadol ac ysgogol mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yr ysgol yn cefnogi dysgu'r disgyblion, ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth o waith y disgyblion eu hunain yn yr arddangosiadau hyn.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadeiladau dan do yn effeithiol ac mae ganddi ystod dda o adnoddau i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r mannau tu allan yn fawr ac yn cael eu cynnal yn dda, ond nid ydynt wedi cael eu datblygu'n llawn i wneud y gorau o gyfleoedd dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir, a rennir, sy'n cael ei hadlewyrchu yn natganiad cenhadaeth yr ysgol. Mae hyn yn arwain at ethos cryf a gofalgar ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli a gryfhawyd yn ddiweddar wedi dosbarthu cyfrifoldebau arwain yn unol â blaenoriaethau y nodwyd ar gyfer eu datblygu o'r arolygiad blaenorol. Mae arweinwyr yn dechrau cyflawni eu rolau yn effeithiol. Maent wedi cyflwyno darpariaeth dda i wella safonau disgyblion llai abl, y rhai ag anghenion Saesneg fel iaith ychwanegol a Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael ag agweddau eraill ar danberfformio yn effeithiol eto, fel y diffyg her i ddisgyblion mwy abl.

Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer aelodau eraill o staff wedi'u diffinio'n dda, ond nid ydynt wedi'u ffurfioli mewn disgrifiadau swydd cyfoes, ar sail cytundeb gan y ddwy ochr. Er bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith i athrawon, nid oes gan yr ysgol unrhyw systemau i asesu perfformiad ei nifer fawr o staff cymorth.

Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ystod o faterion ysgol gyfan priodol. Mae cyfarfodydd staff wythnosol yn canolbwyntio'n dda ar y rhain hefyd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod staff yn trafod ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan ar gyfer gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rôl yn gydwybodol ac yn cyflawni ei holl ddyletswyddau statudol. Mae gan lywodraethwyr wybodaeth dda am fywyd a gwaith yr ysgol, ond nid ydynt yn herio'r ysgol yn effeithiol i wella ei pherfformiad.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus i roi gweledigaeth ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ar waith, ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol pwysig eraill, fel asesu ar gyfer dysgu.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen fanwl, ond nid yw'n arfarnu effaith y mentrau yr ymgymerir â nhw i godi safonau. Nid yw'r adroddiad wedi'i seilio'n ddigon da ar ddadansoddi data perfformiad ac ar fonitro ac arfarnu'r addysgu a'r dysgu yn rheolaidd a thrylwyr. Nid yw'r materion a nodwyd ar gyfer gwella trwy fonitro yn llywio blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol digon. Nid yw'r rhaglen felly yn ysgogi gwelliannau mesuradwy mewn safonau.

Mae targedau yn y cynllun datblygu ysgol yn cysylltu'n agos â materion a nodwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae nifer fawr o dargedau nad ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar godi safonau ac nad ydynt wedi'u blaenoriaethu. Nid yw'r meini prawf llwyddo yn glir ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i uwch reolwyr asesu cynnydd yn gywir. Yn ychwanegol, nid yw pob un o'r staff yn gwybod beth yw targedau'r ysgol ar gyfer gwella na sut y gallant gyfrannu tuag at eu cyflawni.

Mewn partneriaeth ag aelodau eraill o'i chlwstwr ffydd, mae'r ysgol wedi dod yn rhan o gymunedau dysgu proffesiynol yn ddiweddar i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r mentrau hyn.

Mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â datblygiadau mewn perthynas â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn 2006, ond nid aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf ohonynt yn llawn eto.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda gyda rhieni, ac mae’r rhan fwyaf o rieni’n gadarnhaol ynglŷn â phob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae rhieni’n teimlo eu bod yn cael croeso yn yr ysgol ac fe gânt wybodaeth dda am ddigwyddiadau o ddydd i ddydd trwy gylchlythyrau rheolaidd. Mae gweithdai ar y Cyfnod Sylfaen wedi llwyddo i godi dealltwriaeth rhieni o sut y mae eu plant yn dysgu.

Mae trefniadau pontio da ar waith gyda’r ysgol uwchradd gyfagos. Mae’r rhain yn cynnwys clwb ar ôl yr ysgol ar y cyd a rhannu adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chelf, yn ogystal â boreau rhagflas ar gyfer disgyblion. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer symud i Flwyddyn 7. Cynhelir cyfarfodydd ar y cyd gydag ysgolion eraill yn y clwstwr ffydd i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd ac mewn Cymraeg ail iaith.

Mae cysylltiadau da gyda’r gymuned trwy fusnes lleol wedi gwella darpariaeth lyfrgell yn yr ysgol. Mae hyn wedi golygu bod ystod well o ddeunydd darllen ar gael i ddisgyblion, ac mae wedi cynyddu eu diddordeb mewn darllen, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae arweinwyr yn defnyddio athrawon a staff eraill yn briodol. Gwneir defnydd da o’r rhan fwyaf o adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu, gyda gwariant wedi’i gysylltu’n ofalus â thargedau yn y cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r trefniadau ar gyfer defnyddio staff i gyflenwi amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon mor effeithlon ag y gallent fod.

Darperir ystod o gyfleoedd da ar gyfer hyfforddi staff, ac mae’r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu presennol. Mae cyflwyno rhaglenni cymorth ychwanegol i ddatblygu medrau sylfaenol disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion targedig.

Mae’r safonau digonol a gyflawnir gan lawer o ddisgyblion yn y pynciau craidd ac ym medrau allweddol llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm yn golygu bod yr ysgol yn darparu gwerth digonol am arian yn unig.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau mewn llythrennedd a rhifedd sydd naill ai’n cyfateb i’r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu grŵp oedran, neu ychydig islaw.

Erbyn i ddisgyblion fod yn saith oed, ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud cynnydd priodol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni’r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn unol â disgwyliadau cenedlaethol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn wannach o gymharu â chyrhaeddiad ysgolion y mae gan ganran debyg o’u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd cyrhaeddiad disgyblion yn 2011 mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a’r dangosydd pwnc craidd yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad ar y lefel uwch (lefel 3) mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhywfaint, gan symud rhwng y 25% isaf a’r 50% uchaf o lefelau a gyflawnwyd gan ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyrhaeddiad disgyblion ar y lefelau uwch mewn gwyddoniaeth wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf ac nid yw’n cymharu’n dda â chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion tebyg.

Mae canlyniadau asesiadau athrawon dros y tair blynedd diwethaf yn dangos tuedd gyffredinol ar i lawr ym mherfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y dangosydd pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4).

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi gostwng o’r 50% uchaf i’r 25% isaf dros y pum mlynedd diwethaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae canlyniadau ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhywfaint o flwyddyn i flwyddyn rhwng y 25% gwaelod a’r 50% is o ganlyniadau ar gyfer ysgolion y mae eu lefelau o ran prydau ysgol am ddim yn debyg. Mae canlyniadau ar y lefel uwch mewn gwyddoniaeth yn wannach ar y cyfan.

Mae perfformiad yn dangos bod yr ysgol yn perfformio’n debyg i’r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, er bod canlyniadau islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion. Mewn perthynas â lefel yr her yn y teulu, mae’r ysgol yn perfformio ar lefel yn fwy na’r disgwyl ar gyfer y lefelau uwch mewn Saesneg a mathemateg yn y ddau gyfnod allweddol.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae merched yn perfformio’n well na bechgyn yn gyson ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae’r bwlch o ran rhywedd yn fwy na chyfartaleddau’r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan, ac eithrio dangosydd pwnc craidd lefel 4 y llynedd.

Mae data asesu'r ysgol yn dangos bod disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, neu'r rhai sy'n cael cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u mannau cychwyn.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Llenwodd chwe deg o rieni’r holiadur.

Mae’r holl rieni:

- yn fodlon â’r ysgol;
- yn dweud bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol; ac
- yn meddwl bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae bron pob un o’r rhieni:

- yn meddwl bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- yn teimlo bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- yn teimlo bod yr addysgu’n dda;
- yn teimlo’n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gydag unrhyw awgrymiadau neu broblemau;
- yn meddwl bod disgyblion yn cael eu paratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg;
- yn credu bod eu plentyn yn cael ei gefnogi’n dda a’i annog i gadw’n iach; ac
- yn credu bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn eu parchu.

Mae’r rhan fwyaf o rieni:

- yn meddwl bod y gwaith cartref yn briodol;
- yn deall y gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion;
- yn credu bod disgwyl i’w plentyn wneud ei (g)orau;
- yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu’n dda;
- yn teimlo y cafodd eu plentyn gymorth i ymgynefino’n dda; ac
- yn credu bod ystod dda o weithgareddau’n cael eu darparu.

O ran yr ymatebion i’r rhan fwyaf o gwestiynau, roedd ymatebion cadarnhaol rhieni yn debyg i’r cyfartaledd ar gyfer Cymru, neu’n agos ato. Roedd eu hymatebion cadarnhaol ychydig islaw’r cyfartaledd mewn perthynas â’r ystod o weithgareddau a’r cymorth ychwanegol a roddir i ddisgyblion unigol.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan gant a thri o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. At ei gilydd, roedd ymatebion disgyblion i bron pob un o’r cwestiynau yn cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol, neu’n uwch na nhw.

Dywed pob disgybl fod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol i’w helpu i wneud cynnydd.

Dywed bron pob un o’r disgyblion:

- eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod pwy i ofyn os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu:

- bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn dysgu cadw’n iach;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu’n gofidio; a’u bod
- yn cael digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Dywed llawer o ddisgyblion fod:

- disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio; a bod
- disgyblion yn ymddwyn yn dda a’u bod yn gallu bwrw ymlaen â’u gwaith.

Roedd ymatebion cadarnhaol disgyblion ychydig islaw’r meincnod cenedlaethol mewn perthynas â pha mor dda y maent yn credu eu bod yn gwneud yn yr ysgol a pha mor dda y mae’r ysgol yn delio ag unrhyw fwlio.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Sarah Hurst AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Rhona Edwards AEM | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Andrew Thorne | Arolygydd Cymheiriaid |
| Pat Way | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.